



Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid

Amser i Weithredu ar Gynaliadwyedd

Adroddiad Cyflwr y Sector

Ynghylch Cymorth i Ferched Cymru

Cymorth i Ferched Cymru yw'r elusen genedlaethol yng Nghymru sy'n gweithio i ddileu trais o bob math yn erbyn merched. Rydym yn ffederasiwn o sefydliadau arbenigol (*Atodiad A*) yng Nghymru (sy'n gweithio fel rhan o rwydwaith o wasanaethau yn y Deyrnas Unedig) sy'n darparu gwasanaethau sy'n achub bywydau i oroeswyr trais a chamdriniaeth – menywod, dynion, plant a theuluoedd – ac sy'n darparu amrywiaeth o wasanaethau atal arloesol mewn cymunedau lleol.

Rydym wedi bod ar flaen y gad o ran llunio ymatebion ac arferion cymunedol cydgysylltiedig yng Nghymru ers ein sefydlu ym 1978. Gwnawn hyn drwy ymgyrchu dros newid a darparu cyngor, ymgynghoriaeth, cymorth a hyfforddiant er mwyn gwella polisiau a gwasanaethau i oroeswyr, teuluoedd a chymunedau. Rydym hefyd yn darparu gwasanaethau gan gynnwys Llinell Gymorth Byw Heb Ofn a ariennir gan Lywodraeth Cymru a phartneriaeth Gwasanaeth Hyfforddi Cenedlaethol. Hyrwyddwn ymgysylltu â goroeswyr ym mhob agwedd ar ein gwaith fel bod lleisiau niferus a phrofiadau byw'r rheini a effeithir gan gamdriniaeth yn cael eu mwylhau a'u deall. Mae ein llwyddiant yn seiliedig ar sicrhau bod profiadau ac anghenion goroeswyr yn ganolog i'r cyfan a wnawn.

Rydym hefyd yn cyflenwi Safonau Ansawdd Cenedlaethol Cymru, fframwaith achredu cenedlaethol i wasanaethau cam-drin domestig arbenigol yng Nghymru (a gefnogir gan Lywodraeth Cymru) fel rhan o gyfres o systemau a fframweithiau achredu integredig yn y DU.

Mae'r adroddiad hwn yn ymroddedig i'r holl staff yn ein rhwydwaith cenedlaethol o wasanaethau arbenigol sydd wedi gweithio'n ddiflino cyn ac yn ystod yr argyfwng COVID-19 i gefnogi newid ym mywydau cymaint o oroeswyr a pharhau i weithio i ddod â thrais a cham-drin i ben, am byth.

Ysgrifennwyd gan:

Jordan Brewer

Swyddog Polisi ac Ymchwil

Gwendolyn Sterk

Pennaeth Materion Cyhoeddus a Chyfathrebu

Cyhoeddwyd gan:

Cymorth i Ferched Cymru

Tŷ Pendragon, Plas Caxton, Pentwyn, Caerdydd, CF23 8XE

Dylid cyfeirio at yr adroddiad hwn fel a ganlyn: "*Cyflwr y Sector 2020: Y Pandemig Covid-19 a'r achos dros gyllid cynaliadwy ar unwaith*" (Caerdydd: Cymorth i Ferched Cymru, 2020)"

I gael rhagor o wybodaeth am Gymorth i Ferched Cymru, ewch i www.welshwomensaid.org.uk

© Cymorth i Ferched Cymru 2020

Cynnwys

Cyflwyniad	3
Cyflwr y sector cymorth arbenigol yn y cyfnod COVID-19	5
Yr hyn y mae goroeswyr yn ei haeddu Dull holistaidd i roi terfyn ar Drais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV)	6
Costau cyfredol: <i>Cipolwg</i>	10
Pam fod angen model cyllido cynaliadwy a sut y gellid ei sicrhau	11
Camau Gweithredu: Gwneud cyllid cynaliadwy ar gyfer gwasanaethau arbenigol yn realiti	13
Atodiad A: Cyd-destun a therminoleg	16
Atodiad B: Camau gweithredu cyllid cynaliadwy yn fwy manwl	18

Cyflwyniad

Mae hwn yn gyfnod na welwyd ei debyg o'r blaen i bawb, mae'r sector Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) yn gweithio'n galed iawn i gynnal ei ddarpariaeth fel gwasanaeth hanfodol yn ystod ac ar ôl y pandemig COVID-19. O wythnos gyntaf y canllawiau ar gadw pellter cymdeithasol a gwarchod, addasodd gwasanaethau arbenigol eu darpariaeth i sicrhau eu bod yn dal i fod ar gael i gefnogi pawb oedd eu hangen tra hefyd yn ymateb i lefelau staffio is oherwydd absenoldebau salwch, staff sy'n agored i niwed neu ddarpariaeth gofal plant gyfyngedig. Mae gweithwyr rheng flaen gwasanaethau arbenigol yn gwneud gwaith rheng flaen allweddol i gadw'r ddarpariaeth lloches ar agor, er mwyn sicrhau bod plant ac oedolion sy'n oroeswyr yn cael eu cefnogi mewn llety diogel lle bynnag y bo modd. Mae darparwyr cymorth therapiwtig wedi symud eu cefnogaeth ar-lein neu dros y ffôn, gan gysylltu â goroeswyr yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi yn ystod cyfnod pan mae trawma a gorbryder yn cael eu dwysáu gan gyfyngiadau cymdeithasol. Mae'r sector arbenigol yn parhau i weithio'n ddiflino i sicrhau bod yr holl oroeswyr yn cael eu cefnogi, gan gwrdd â'r cynnydd a ragwelir mewn menywod a phlant sy'n cyrchu gwasanaethau ar ôl lleddfu mesurau cloi a chynllunio ar gyfer yr effaith hirdymor ar unigolion a chymunedau.

Nid ydym yn gwybod eto beth fydd effaith lawn y pandemig ar y galw am wasanaethau arbenigol ynghyd â'r canlyniadau parhaus ar gyfer gwasanaethau statudol, megis iechyd, tai, ysgolion a gwasanaethau cymdeithasol. Mae gwasanaethau arbenigol yn gofyn am gynaliadwyedd cyllid i'w galluogi i fod yn hyblyg ac ymatebol yn eu darpariaeth gyda'r hyder y bydd strwythur o adnoddau sefydlog a mecanweithiau cyflym ar gyfer mwy o fuddsoddi yn cefnogi hyn ble a phryd y mae ei angen.

Cyn Covid-19, roedd 1 ym mhob 3 merch yn profi rhyw fath o VAWDASV yn ei hoes, nid yw hyn yn 'normal' yr ydym eisiau dychwelyd iddo. Creodd y pandemig heriau newydd i'r sector arbenigol a pheryglon newydd i oroeswyr, ond disgleiriodd hefyd olau ar y bylchau a'r methiannau presennol yn y system. Rhaid i alluogi cymunedau dorri'r distawrwydd ar VAWDASV a rhoi ymatebion defnyddiol i oroeswyr sy'n estyn allan trwy godi ymwybyddiaeth o'r gefnogaeth sydd ar gael iddynt fod wrth wraidd yr ymateb cenedlaethol. Bydd yr effaith yn cynyddu'r angen am newid diwylliant i atal ac ymyrraeth gynnar ar draws gwasanaethau statudol ac arbenigol.

Ar hyn o bryd yng Nghymru, nid oes dealltwriaeth gyffredinol o'r hyn sy'n cael ei wario (yn genedlaethol neu'n lleol) ar atal VAWDASV nac ar ymateb i oroeswyr a dwyn troseddwyd i gyfrif. Mae adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru "*Cynnydd o ran rhoi'r Ddeddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2019 ar waith*"¹ yn dod i'r casgliad bod cyllido ar gyfer gwasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) yn gyffredinol yn dameidiog, yn gymhleth ac yn parhau am gyfnod byr, a bod comisiynu yn rhy anghyson i sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn cael gwerth am arian bob amser. Ar hyn o bryd, mae mapio yn canolbwyntio ar y buddsoddiad cyfredol mewn gwasanaethau arbenigol yn hytrach nag edrych ar yr hyn sy'n cael ei wario yn ei gyfanrwydd ar draws darpariaeth statudol, generig ac arbenigol. Ychydig iawn o ddadansoddi sydd wedi'i wneud i sut mae cyllidebau ar draws agendau'r llywodraeth yn buddsoddi mewn atal VAWDASV ac amddiffyn a chefnogi goroeswyr. Ar hyn o bryd, nid yw'r penderfyniadau buddsoddi wedi'u huno, gan ei gwneud yn amhosibl gwerthuso a ydym yn buddsoddi yn effeithiol mewn cyflawni'r nod cyffredin o roi terfyn ar VAWDASV.

¹ https://www.audit.wales/system/files/publications/VAWDASV_cym.pdf

Cyflwynwyd y Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 bum mlynedd yn ôl. Yn ein tri adroddiad blynyddol diwethaf ar *Gyflwr y Sector*²³⁴, gwnaethom ddangos trwy ddata a gasglwyd o'n haelodaeth a gwasanaethau arbenigol ehangach duedd mewn cyllid cyfyngedig, cynnydd yn nifer y menywod sy'n cyrchu gwasanaethau arbenigol, ac amgylchedd mwy heriol yn gyffredinol i ddarparu gwasanaethau a chefnogi goroeswyr. Roedd cyllid yn gyson yn un o'r pryderon mwyaf i wasanaethau arbenigol.

Bydd yr adroddiad hwn yn dangos yr achos dros gyllid cynaliadwy ar gyfer gwasanaethau arbenigol⁵, yr agweddau ymarferol ynghylch datblygu model dichonadwy, ac yn cynnwys camau penodol ar gyfer asiantaethau cyfrifol. Mae'r sefyllfa bresennol gyda COVID-19 wedi dangos bod angen i ni weld ysgogiad wrth sicrhau cynaliadwyedd y sector VAWDASV wrth i'w ddarpariaeth o wasanaethau hanfodol mewn amseroedd arferol, ddod yn bwysicach fyth yn ystod ac ar ôl argyfwng cenedlaethol. Hyd nes y byddwn yn mynd i'r afael â'r materion cyllido cynaliadwy parhaus hyn i ni gyd mewn ffordd ystyrlon, gyda chyllid ac adnoddau digonol ynghyd ag arweinyddiaeth gadarn, nid yw 'cyflwr y sector' byth yn mynd i newid. Yn adroddiad eleni, rydym yn edrych ymlaen at y dyfodol, ac yn amlinellu'r hyn sydd angen i ni wneud i sicrhau nad ydym yn yr un sefyllfa mewn 5 mlynedd arall.

Mae trais yn erbyn menywod a merched yn digwydd o fewn cyd-destun perthynas draddodiadol o bŵer, mae ymddygiad troseddwr yn deillio o ymdeimlad o hawl a gefnogir gan agweddau rhywiaethol, hiliol, gwrth-anabledd, homoffobig ac agweddau, ymddygiad a systemau gwahaniaethol eraill sy'n cynnal ac yn atgynhyrchu anghydraddoldeb.

Os ydym am gyflawni ein nod o roi terfyn ar bob math o drais yn erbyn menywod a merched rhaid i ni sicrhau ein bod yn buddsoddi mewn atal ac ymyrraeth gynnar ar draws pob sefydliad a chymuned, gyda'r nod o wireddu cydraddoldeb a hawliau dynol i bob menyw a merch.

² <https://www.welshwomensaid.org.uk/wp-content/uploads/2018/02/State-of-the-sector-report-2016-FINAL.pdf>

³ <https://www.welshwomensaid.org.uk/wp-content/uploads/2017/12/WWA-State-of-the-Sector-2017-ENG.pdf>

⁴ <https://www.welshwomensaid.org.uk/wp-content/uploads/2019/01/State-of-the-Sector-2018-Eng.pdf>

⁵ <https://www.welshwomensaid.org.uk/wp-content/uploads/2019/01/State-of-the-Sector-2018-Eng.pdf>

Cyflwr y sector cymorth arbenigol yn y cyfnod Covid-19

Mae'r Cenhedloedd Unedig wedi cyhoeddi pandemig cysgodol yng ngoleuni'r cynnydd a welwyd yn fyd-eang yn yr achosion o VAWDASV yn ystod y pandemig COVID-19.⁶ Mae tystiolaeth yn dangos bod trais yn erbyn menywod yn tueddu i gynyddu yn ystod pob math o argyfwng, gan gynnwys epidemigion.⁷ Mae'r pandemig wedi gwaethygu anghydraddoldebau a oedd eisoes yn bodoli. Mae menywod hŷn a menywod ag anabledau yn debygol o fod â risgiau ac anghenion ychwanegol.⁸ Mae Imkaan wedi adrodd bod gwasanaethau a arweinir 'gan ac ar gyfer' menywod du a lleiafrifol wedi nodi cynnydd sylweddol yn y galw - yn enwedig am leoedd mewn lloches.⁹

Mae gwasanaethau arbenigol wedi bod yn y rheng flaen wrth ymateb i'r pandemig cysgodol yng Nghymru.

Effaith Covid-19 ar wasanaethau arbenigol yng Nghymru¹⁰:

Newidiadau i'r galw

- Cysylltodd dros 12,000 o bobl â'r llinell gymorth Byw Heb Ofn yn ystod hanner cyntaf 2020/2021.
- Gwelwyd cynnydd o 70% yn y cysylltiadau gan bobl oedd yn pryderu am rywun (ffrindiau, teulu a chymdogion) yn dilyn cyhoeddi'r [Pecyn Cymorth Sefyll gyda Goroeswyr](#).¹¹
- Gwelwyd 3 gwaith yn fwy o gysylltiadau gwe-sgwrs â'r llinell Gymorth ym mis Ebrill - Mehefin o'i gymharu â mis Ionawr - Mawrth 2020 - a chynnydd tebyg mewn cysylltiadau trwy neges destun ac e-bost.
- Cynyddodd cymhlethdod yr achosion a adroddwyd i'r llinell gymorth yn sylweddol (cynnydd o 240%). Ers mis Mawrth 2020, mae hyd cyfartalog galwadau wedi dyblu.
- Dyblodd hefyd nifer yr atgyfeiriadau o'r llinell gymorth i asiantaethau eraill gan gynnwys cynnydd o 47% mewn atgyfeiriadau at yr heddlu a 5 gwaith nifer yr atgyfeiriadau diogelu.
- Cefnogwyd 266 o blant a phobl ifanc trwy wasanaethau cymorth mewn lloches rhwng mis Mawrth a Mehefin 2020, ond adroddodd gwasanaethau arbenigol hefyd ostyngiadau yn nifer y plant a oedd yn cael cefnogaeth yn y gymuned gan fod cyfyngiadau cloi yn cyflwyno rhwystrau i gefnogaeth.
- Adroddodd gwasanaethau arbenigol cynnydd yn y galw wrth i'r cyfyngiadau gael eu codi. Mae gwasanaethau, yn enwedig gwasanaethau trais rhywiol yn disgwyl gweld cynnydd dros gyfnod hir gan fod llawer o oroeswyr yn cymryd 6 mis neu fwy i ddatgelu neu gael mynediad i gymorth.

Hunanynysu a lefelau staffio

⁶ <https://www.unwomen.org/en/news/stories/2020/4/statement-ed-phumzile-violence-against-women-during-pandemic>

⁷ <https://www.cgdev.org/sites/default/files/pandemics-and-vawg-april2.pdf>

⁸ <https://apps.who.int/iris/bitstream/handle/10665/331699/WHO-SRH-20.04-eng.pdf?ua=1>

⁹ Imkaan, The Impact of the Two Pandemics: VAWG and COVID-19 on Black and Minoritised Women and Girls, May 2020 https://829ef90d-0745-49b2-b404-cbea85f15fda.filesusr.com/ugd/2f475d_6d6dea40b8bd42c8a917ba58ceec5793.pdf

¹⁰ Data wedi'i gymryd o *Adroddiad Aelodaeth Blynnyddol (2020) Cymorth i Ferched Cymru: Data gan wasanaethau arbenigol yng Nghymru, 2019/20 ac Adroddiad Effaith COVID 19 ar Wasanaethau Arbenigol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Cymorth i Ferched Cymru, Mehefin 2020*

¹¹ <https://www.welshwomensaid.org.uk/cy/campaigning/pecyn-cymorth-ar-gyfer-gwylwyr-covid-19/>

- Ym mis Mehefin 2020, roedd 31% o'r holl aelodau staff oedd yn cael eu cyflogi gan wasanaethau VAWDASV yn absennol yn ystod y cyfnod clo COVID-19. Gyda chyfnodau clo lleol a'r cyfnod atal byr, ac achosion cynyddol o COVID-19, mae gwasanaethau'n adrodd gostyngiad parhaus mewn lefelau staffio oherwydd gofynion hunanynysu a mynediad cyfyngedig i brofion cyflym.
- Anawsterau gofal plant oedd achos 35% o absenoldebau staff, sy'n tynnu sylw at y materion a gyflwynwyd i weithwyr allweddol VAWDASV wrth gyrchu gofal plant pan oedd yr ysgolion ar gau.
- Roedd 53% o wasanaethau yn adrodd bod y newidiadau wedi cael effaith ar les staff. Mae llawer o wasanaethau wedi trefnu cefnogaeth ychwanegol i staff, gan gynnwys mwy o oruchwyliaeth glinigol i gefnogi eu lles.

Costau ychwanegol

- Adroddodd 100% o wasanaethau arbenigol eu bod wedi profi costau ychwanegol o ganlyniad i'r pandemig COVID-19.
- Nododd 41% ym mis Mehefin 2020 eu bod wedi colli cyllid o ganlyniad i'r pandemig. Nodwyd bod hyn oherwydd canslo digwyddiadau codi arian a cholli budd-dal tai oherwydd cadw at ofynion pellter cymdeithasol a glanhau mewn llochesau gan gynyddu lefelau "gwagleoedd".
- Cododd gwasanaethau arbenigol bryderon sylweddol ynghylch cynaliadwyedd yr adnoddau sydd wedi'u darparu mewn ymateb i'r pandemig a'r diffyg cynllunio ar gyfer effeithiau tymor hir.

Yr hyn y mae goroeswyr yn ei haeddu Dull holistaidd o roi terfyn ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV)

Mewn cyfnod sydd wedi bod mor ofnadwy ac ansicr, mae penderfyniad i adeiladu'n ôl yn well yn tyfu ac yn ymgryfhau ar draws y wlad. Mae'r pandemig wedi tynnu sylw amlwg at y gwir na ellir ei osgoi mai busnes pawb yw VAWDASV, ac mae brwdfrydedd dros gydweithredu ystyrlon, dysgu ar y cyd ac ymrwymadau cryfach i atal camdriniaeth, amddiffyn a chefnogi goroeswyr, a chynnal y gwasanaethau hynny sy'n eu cefnogi wedi tyfu.

Model cyllid cynaliadwy ar gyfer gwasanaethau arbenigol yw'r sylfaen ar gyfer rhoi terfyn ar bob math o drais yn erbyn menywod. Byddai cyllido gwasanaethau i redeg yn gynaliadwy nid yn unig yn galluogi'r sector arbenigol VAWDASV i gefnogi menywod a phlant mewn angen uniongyrchol ac sy'n byw gyda thrawma tymor hir, ond hefyd yn galluogi'r sector i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol, systemig VAWDASV trwy gyflwyno ac ymgorffori polisiâu ac ymarfer effeithiol i'w atal rhag digwydd yn y lle cyntaf. Unioni polisi, ymarfer a chyllido yw'r ffordd fwyaf effeithiol i sicrhau newid go iawn.

Gallai adeiladu'n ôl yn well gyda model cyllido cynaliadwy alluogi model holistaidd yn cynnwys:

Atal

Mae cydnabyddiaeth eang ymhlith arbenigwyr a rhanddeiliaid allweddol bod modd atal pob math o drais yn erbyn menywod, gan gynnwys cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV). Mae mynd i'r afael â'r normau, yr arferion a'r strwythurau sy'n gysylltiedig ag anghydraddoldeb rhywiol ac sy'n cyfreithloni neu'n esgusodi VAWDASV yn gofyn am ymateb strategol aml-lefel - un sy'n cydnabod

croestoriad y ffactorau sy'n digwydd ar y lefelau cymdeithasol, cymunedol, perthynas ac unigol sy'n cynyddu'r tebygolrwydd o VAWDASV.¹²

Yng Nghymru, mae gennym ddeddfwriaeth uchelgeisiol yn y Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Camdrin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) (Cymru) 2015 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sy'n golygu y gall ein cyrff cyhoeddus fod yn uchelgeisiol wrth flaenoriaethu atal VAWDASV. Mae hyn yn cynnwys buddsoddi mewn ymgyrchoedd iechyd cyhoeddus sy'n herio ac yn newid agweddau, addysg perthnasoedd a rhyw o ansawdd uchel i bob plentyn a pherson ifanc, a rhaglenni ymgysylltu â'r gymuned sy'n cynyddu gwybodaeth a hyder cymunedau i'w galluogi i fynd i'r afael â'r achosion sylfaenol fel anghydraddoldeb rhwng y rhywiau a chroestorri gwahaniaethu.

Ymyrraeth Gynnar

Cymunedau, gweithleoedd a gwasanaethau fel meddygon teulu, ysgolion neu ddarparwyr tai yn aml yw'r cyntaf i glywed am gamdriniaeth; mae goroeswyr wedi dweud wrthym eu bod wedi estyn allan am gefnogaeth mewn cymunedau gan deulu a ffrindiau neu weithwyr proffesiynol mewn gwasanaethau amrywiol cyn cael cefnogaeth arbenigol. Mae ein dull systemau cyfan 'Newid sy'n Para' yn darparu model o atal, ymateb a chefnogaeth, gan ymyrryd cyn gynted â phosibl i gyfyngu ar niwed gan gyflawnwyr camdriniaeth, lleihau goddefgarwch i gamdriniaeth mewn cymunedau a gwasanaethau a chynyddu gwytnwch i oroeswyr trwy adeiladu ar eu cryfderau a mynd i'r afael â'u hanghenion. Roedd y pethau a ddysgwyd o gyflwyno'r elfennau 'Gofyn i Mi' a 'Gweithiwr Proffesiynol Dibynadwy' o 'Newid sy'n Para' yn cynnwys sut mae cymunedau sy'n cymryd rhan mewn ymyrraeth gynnar yn cyfrannu at gynyddu'r lle i oroeswyr weithredu ac yn cyfyngu ar y cyfleoedd sydd gan gyflawnwyr i barhau i gam-drin. Profwyd bod hyn yn galluogi rhyddid hir dymor rhag camdriniaeth, sy'n ei wneud yn fuddsoddiad cost effeithiol.

Plant a Phobl Ifanc

Yn ystod eu hoes, mae 1 ym mhob 5 o blant yn profi cam-drin domestig, ac mae 1 ym mhob 20 plentyn wedi cael ei gam-drin yn rhywiol.¹³ Lle mae gwasanaethau arbenigol i blant ar gael, mae ganddynt rôl arbennig o effeithiol mewn ymyrraeth gynnar i frwydro yn erbyn effeithiau trais a cham-drin a gwelir gwelliannau sylweddol yn iechyd, diogelwch, lles a chyflawniadau plant a phobl ifanc sydd wedi cael y profiadau niweidiol hyn. Mae gwasanaethau arbenigol yn cefnogi plant a phobl ifanc gydag ystod eu profiadau yn ogystal â chefnogi rhieni sydd ddim yn cam-drin. Mae hyn yn cynnwys therapi chwarae a chwrsela therapiwtig, ymyriadau teulu a rhianta, cefnogaeth mewn llochesau yn benodol ar gyfer plant, sesiynau cyngor ac arweiniad, a gwaith atal mewn ysgolion, clybiau ieuenctid a chymunedau ehangach.

Cafodd 4,466 o blant a phobl ifanc gefnogaeth mewn lloches neu yn y gymuned yn 2019-20. Bu gwasanaethau arbenigol hefyd yn ymgysylltu â 6,661 o blant a phobl ifanc mewn sesiynau codi ymwybyddiaeth ar VAWDASV yn eu hysgolion.¹⁴ Fodd bynnag, amlygodd [Adroddiad Mae Plant yn Bwysig](#) Cymorth i Ferched Cymru a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2019, efallai na fyddai dros dri chwarter y plant hynny sy'n profi camdriniaeth yn gallu cael y gefnogaeth arbenigol y maent yn ei haeddu oherwydd loteri cod post o ddarpariaeth a llwybrau atgyfeirio.¹⁵

¹² Hagemann-White et al. (2010) 'Review of Research on Factors at Play in Perpetration'; <https://www.humanconsultancy.com/assets/understanding-perpetration/bin/Review%20of%20Research.pdf>

¹³ <https://www.welshwomensaid.org.uk/wp-content/uploads/2019/11/Children-and-Young-People-participation-report-FINAL.pdf>

¹⁴ *Adroddiad Aelodaeth Blynyddol (2020)* Cymorth i Ferched Cymru: *Data gan wasanaethau arbenigol yng Nghymru, 2019/20*

¹⁵ <https://www.welshwomensaid.org.uk/wp-content/uploads/2019/11/Children-and-Young-People-participation-report-FINAL.pdf>

Gwasanaethau Trais Rhywiol

Mae gwasanaethau argyfwng trais a thrais rhywiol pwrpasol yn darparu ymatebion penodol i oroeswyr trais rhywiol, ymosodiadau rhywiol a cham-drin rhywiol diweddar, hanesyddol ac yn ystod plentyndod, gan gydnabod trawma tymor hir y profiadau hyn. Trwy gwnsela, sesiynau therapiwtig, cefnogaeth unigol neu gefnogaeth grŵp sy'n canolbwyntio ar anghenion y goroeswr, maen nhw'n rhoi cyfle i ymdopi ac adfer. Mae gweithwyr proffesiynol hyfforddedig hefyd ar gael i ddarparu gwybodaeth ac eiriolaeth gyda gwasanaethau iechyd, tai, cyllid, lles, rhianta, addysg a chyflogaeth, ynghyd â darparu cefnogaeth trwy'r broses gyfreithiol, pe bai goroeswyr yn dewis adrodd ai peidio.

Cafodd 1,443 o oroeswyr gefnogaeth gan wasanaethau trais rhywiol pwrpasol yn 2019-20, ar draws y pedwar gwasanaeth aelod sy'n darparu cymorth trais rhywiol arbenigol. Fodd bynnag, ar ddiwedd y flwyddyn roedd 251 o oroeswyr ar restrau aros i gael cymorth argyfwng trais ar draws y gwasanaethau hyn.¹⁶ Mae'r ymgyrchoedd diweddar fel #FiHefyd ac Amser ar Ben, cyfres o achosion proffil uchel o gam-drin plant yn rhywiol a cham-fanteisio'n rhywiol ar blant wedi cynyddu'r niferoedd sy'n cyrchu cefnogaeth yn sylweddol, ond nid yw'r cyllid wedi cyfateb i'r cynnydd yn y galw am gefnogaeth.¹⁷

Lloches a chefnogaeth sy'n seiliedig ar lety

Mae llochesau yn cyflawni rôl hanfodol wrth ymateb i gam-drin domestig a ffurfiau eraill o drais yn erbyn menywod. Mae eu swyddogaethau yn mynd ymhell y tu hwnt i ddarparu lloches mewn argyfwng a rhywle diogel i aros yn unig. Mae'r gefnogaeth a'r seibiant a ddarperir gan llochesau yn galluogi goroeswyr i ddelio â phrofiadau trawmatig, i adfer, i adennill eu hunan-barch, ac i osod y seiliau ar gyfer byw'r bywyd maen nhw'n ei ddewis ac annibynnol. Maent yn cynnig rhaglen wedi'i chynllunio o gefnogaeth therapiwtig ac ymarferol, a mynediad i gefnogaeth gan gymheiriaid gan oroeswyr eraill. Mae mwyafrif y llochesau yn cynnig elfen o amgylcheddau cymunedol lle mae menywod a phlant yn dod yn gyfarwydd â ffordd wahanol o gyd-fyw. Mae goroeswyr camdriniaeth yn dioddef o fod yn ynysig ac yn isel mewn hunan-barch o ganlyniad i'r gamdriniaeth, ac mae llochesau yn helpu i gynyddu gallu goroeswyr i fyw bywyd egniol o'u dewis.

Mae'r gefnogaeth a gynigir gan wasanaethau arbenigol hefyd yn cynnwys cymorth ailsefydlu sy'n helpu goroeswyr i symud ymlaen i ailadeiladu eu bywydau a sefydlu eu hunain mewn cymunedau lleol.

Fe wnaeth 2,522 o oroeswyr (oedolion a phlant) elwa o gefnogaeth mewn lloches gan wasanaethau aelodau Cymorth i Ferched Cymru yng Nghymru yn 2019-20, fodd bynnag nid oedd 574 yn gallu cyrchu'r gefnogaeth yr oedd ei hangen arnynt oherwydd diffyg lle, gallu ac adnoddau.

Darpariaeth gwasanaeth 'Gan ac Ar Gyfer'

Cefnogir sefydliadau ar lefel ranbarthol/genedlaethol dan arweiniad ac ar gyfer cymunedau Du a lleiafrifol i ddiwallu anghenion goroeswyr Du a lleiafrifol ledled Cymru. Mae gwasanaethau arbenigol 'Gan ac ar gyfer' yn fedrus wrth nodi anghenion a phrofiadau mathau penodol o VAWDASV y gall gwasanaethau nad ydynt yn cael eu harwain gan ac ar gyfer menywod yn y cymunedau hyn eu colli. Maent yn cynnig ystod o wasanaethau ac yn gallu cyrraedd menywod nad ydynt hyd yn oed yn cydnabod bod eu profiadau yn gamdriniol ac yn creu systemau cymorth hyblyg ac amrywiol, sy'n

¹⁶ *Adroddiad Aelodaeth Blynyddol (2020) Cymorth i Ferched Cymru: Data gan wasanaethau arbenigol yng Nghymru, 2019/20*

¹⁷ <https://rapecrisis.org.uk/media/1914/appgreportfinal.pdf>

sensitif i'r ffaith y gall gwasanaethau lloches, cwnsela neu wasanaethau cymorth eraill fod yn anghyfarwydd a/neu fod yn gysylltiedig â stigma i lawer o fenywod Du a Lleiafrifoedd Ethnig.

Effeithiodd COVID-19 yn anghymesur ar gymunedau amrywiol a gwaethygu'r anghydraddoldebau hiliol presennol oherwydd anghydraddoldebau strwythurol. Mae angen cydnabod hyn wrth gynllunio cyllid ar gyfer yr ymateb hir dymor, gan ddod â phobl o'r cyrion i'r canol.¹⁸

Dim mynediad at arian cyhoeddus

Mae dim mynediad at arian cyhoeddus (NRPF) yn rhwystr difrifol i oroeswyr sy'n profi trais a cham-drin ac sydd â statws mewnfudo cyfyngedig neu ansicr yn y DU a rhaid eu hystyried nhw fel rhan o unrhyw gynllun cyllido i ddod â VAWDASV i ben yn llwyr i fenywod yng Nghymru.

Fel rhan o ymateb Llywodraeth Cymru i'r pandemig COVID-19, cododd gweinidogion gyfyngiadau ar bot penodol o arian a alluogodd gwasanaethau i gefnogi goroeswyr gyda NRPF¹⁹. Croesawyd y weithred hon gan Lywodraeth Cymru yn gynnes gan wasanaethau cymorth arbenigol a galluogodd goroeswyr a fyddai fel arall yn gaeth mewn sefyllfa beryglus i geisio diogelwch. Yn ystod y cyfnod clo, adroddodd 50% o wasanaethau arbenigol eu bod wedi cefnogi o leiaf un fenyw gyda NRPF.²⁰ Mae Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd Cymru wedi adleisio galwad Cymorth i Ferched Cymru am i Lywodraeth Cymru sicrhau diogelwch a chefnogaeth i oroeswyr gyda NRPF y tu hwnt i'r cyfnod COVID gyda chronfa bwrpasol ar gyfer gwasanaethau.²¹

Mae Llywodraeth Cymru yn Llywodraeth ffeministaidd hunanhonedig, ac yn genedl noddfa gydag ymrwymiad i sicrhau diogelwch pob menyw sy'n byw yng Nghymru waeth beth yw ei statws mewnfudo. Rhaid i'r model ar gyfer cyllid cynaliadwy gynnwys cefnogaeth ar gyfer goroeswyr gyda NRPF i fod yn effeithiol wrth gefnogi *pob* goroeswr.

Goroeswyr sydd wedi'u hecsbloetio gan y diwydiant rhyw

Mae goroeswyr sy'n cael eu hecsbloetio gan y diwydiant rhyw yn aml yn wynebu sawl anfantais ac nid yw bob amser yn achos o allu cael gafael ar gymorth, ond yn hytrach, pa un a yw'r cymorth cywir ar gael i ddechrau. Mae angen i Gymru ddatblygu model sy'n cefnogi menywod sydd wedi'u hecsbloetio gan y diwydiant rhyw ac sy'n wynebu anfantais lluosog.

Mae angen i fenywod sy'n cael eu hecsbloetio gan y diwydiant rhyw gael mynediad i lety diogel ac addas sy'n ystyried cefnogaeth ychwanegol y gallai fod ei hangen arnynt. Er enghraifft, mae gwasanaethau arbenigol yn nodi na fydd darparwyr llety yn derbyn menyw oni bai ei bod yn cael presgripsiwn (ar gyfer dibyniaeth ar gyffuriau) sy'n creu rhwystrau ychwanegol i lety diogel a phriodol. Mae angen llety arbenigol gydag elfen iechyd a sylweddau i hwyluso gwell gweithio cydgysylltiedig ar draws y sector cymorth. Mae yna ymrwymiad o fewn y Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, y bydd awdurdodau perthnasol yn arwain yn eu meysydd arbenigedd, ac yn gweithio ar y cyd ag asiantaethau eraill i gyflawni amcanion y Ddeddf.

¹⁸ https://829ef90d-0745-49b2-b404-cbea85f15fda.filesusr.com/ugd/2f475d_6d6dea40b8bd42c8a917ba58ceec5793.pdf

¹⁹ <https://llyw.cymru/10-miliwn-o-gymorth-brys-ar-gyfer-pobl-syn-cysgu-allan-yng-nghymru-yn-ystod-coronafeirws>

²⁰ Adroddiad *Effaith COVID 19 ar Wasanaethau Arbenigol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol* Cymorth i Ferched Cymru (2020): *Adroddiad Mehefin*

²¹ https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-03/grwp-gweithredu-ar-ddigartrefedd-adroddiad-mawrth-2020_0.pdf

Ymyriadau i Gyflawnwyr

Ers nifer o ddegawdau bellach mae yna dystiolaeth gynyddol sy'n dangos os ydym am fynd i'r afael â VAWDASV yn llwyddiannus, mae angen i ni newid agweddau ac ymddygiad yn ogystal â dwyn y rhai sy'n cyflawni trais a cham-drin i gyfrif yn effeithiol. Os caiff hyn ei wneud yn effeithiol, nid yn unig y bydd yn cynyddu diogelwch goroeswyr (gan gynnwys plant), ond hefyd yn atal dioddefwyr camdriniaeth a thrais yn y dyfodol. Mae ymyriadau achrededig i gyflawnwyr yn sicrhau bod diogelwch i oroeswyr yn ganolog i'r rhaglen. Darperir ystod o raglenni, ymyriadau a phrosiectau yng Nghymru ar hyn o bryd, ond mae'r gwaith yn dal i ganolbwyntio'n bennaf ar gam-drin domestig, a rhaid buddsoddi mewn ymyriadau i gyflawnwyr ar draws pob ffurf o VAWDASV.

Mae strategaethau rhanbarthol a gynhyrchwyd gan awdurdodau lleol a byrddau iechyd, o dan ddyletswyddau'r Ddeddf, wedi nodi bylchau yn y ddarpariaeth o ymyriadau hygyrch i gyflawnwyr yng Nghymru. Mae llawer wedi ei gwneud yn flaenoriaeth ar gyfer dadansoddi a chomisiynu anghenion, fodd bynnag mae angen sicrhau, wrth symud ymlaen, eu bod yn cael eu llywio gan ymchwil ac arfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Byddai rhanbarthau lleol yn elwa o ddull strategol cenedlaethol ar gyfer ymyriadau i gyflawnwyr sy'n uno'r dyletswyddau ar draws deddfwriaeth sy'n canolbwyntio ar atal ac yn sicrhau aliniad ar draws cyd-destunau polisi sy'n anelu at alluogi ymyrraeth gynnar ac arferion diogel sy'n cadw anghenion goroeswyr wrth galon y ddarpariaeth.

Costau cyfredol

Cipolwg:

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i weithredu erthyglau perthnasol Confensiwn Cyngor Ewrop ar atal a brwydro yn erbyn trais yn erbyn menywod a thrais domestig (Confensiwn Istanbwl) o fewn eu gallu ac mae Llywodraeth y DU yn y broses o gyflawni'r Mesur Cam-drin Domestig sy'n anelu at gadarnhau'r confensiwn. Mae'r Confensiwn yn nodi'r egwyddor y dylai "gwasanaethau cymorth arbenigol ar unwaith, tymor byr a thymor hir" fod yn hygyrch i "unrhyw ddioddefwr sy'n destun unrhyw un o'r gweithredoedd trais a gwmpesir gan gwmpas [y] Confensiwn", wedi'u darparu mewn "dosbarthiad daearyddol digonol", a bod "pob menyw sy'n ddioddefwr a'i phlant" yn cael gwasanaethau o'r fath.²² Yn seiliedig ar y safonau a nodir yn y Confensiwn, mae Cymorth i Ferched Cymru wedi cyfrifo beth fyddai'n ei gostio i ddarparu'r lefel leiaf o gefnogaeth ar draws cam-drin domestig a thrais rhywiol, yn seiliedig ar boblogaeth y wlad.

- Costau ar gyfer lloches gyda darpariaeth yn y gymuned: Yn seiliedig ar faint y boblogaeth, mae Cymru angen 314 o leoedd lloches. Mae angen i'r lleoedd hyn fod yn gwbl hygyrch a gyda chefnogaeth lawn gan gynnwys cymorth ar gyfer plant a phobl ifanc yn y lloches. Dylai cyfran o'r lleoedd gael eu neilltuo ar gyfer gwasanaethau arbenigol 'gan ac ar gyfer' sy'n deall y rhwystrau penodol i adrodd a cheisio cymorth ymhlith y rhai sydd ar y cyrion. Bydd darparu cymorth lloches wedi'i ariannu'n llawn ar draws Cymru yn costio £22,035,958.
- Costau ar gyfer cymorth trais rhywiol: Yn seiliedig ar faint y boblogaeth, mae Cymru angen 16 canolfan argyfwng trais a chanolfan atgyfeirio ymosodiadau rhywiol. Mae angen i'r rhain gynnig cefnogaeth i oroeswyr trais rhywiol diweddar a hanesyddol, oherwydd gall effaith trais rhywiol bara am oes ac mae goroeswyr yn aml yn ceisio cefnogaeth gyfnod o amser ar ôl y profiad. Maent yn darparu cefnogaeth therapiwtig arbenigol, cefnogaeth ymarferol ac emosiynol ynghyd â chefnogaeth trwy'r system cyfiawnder troseddol mewn achosion lle mae goroeswyr eisiau adrodd am yr hyn sydd wedi digwydd iddynt.

²² Erthygl 22

Bydd cyflwyno cymorth trais rhywiol wedi'i ariannu'n llawn ar draws Cymru yn costio £20,800,000.

- Mae plant a phobl ifanc yn profi VAWDASV eu hunain ac maent yn cael eu cydnabod fel dioddefwyr. Mae ganddyn nhw hawl i gefnogaeth a all fynd i'r afael yn benodol â'u profiadau o gam-drin a thrais a'u galluogi i gael perthnasoedd iach yn y dyfodol. Byddai buddsoddi mewn darpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc gan gynnwys cefnogaeth i blant sy'n byw mewn lloches, cefnogaeth yn y gymuned a chymorth therapiwtig arbenigol i blant sy'n agored i gam-drin domestig yn costio £11,088,416.

Pam fod angen model cyllido cynaliadwy a sut y gellid ei sicrhau

Ar hyn o bryd, mae gwasanaethau cymorth arbenigol VAWDASV yn cael eu hariannu trwy glytwaith o gomisiynu a grantiau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol yn ogystal â photiau cyllido elusennol - yn aml gyda chontractau byr. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu cyllid grant i bob awdurdod lleol i fuddsoddi mewn VAWDASV, fodd bynnag, mae'r grant hwn yn cynrychioli rhan fach iawn o'r adnoddau cyffredinol a fydd yn cael eu buddsoddi ar draws Llywodraeth Cymru a'r sector statudol ehangach. Mae yna gwahanol lefelau a phrosesau cyllido yn parhau yn y gwahanol awdurdodau lleol, Byrddau Iechyd a Chomisiynwyr Heddlu a Throsedd. Nid yw meysydd arwyddocaol y Llywodraeth - polisi economaidd, iechyd, addysg, cyflogadwyedd, tlodi, mynd i'r afael â thrais difrifol, er enghraifft - wedi dangos fawr o ymrwymiad i fuddsoddi mewn atal neu ymateb i VAWDASV hyd yma. Mae eraill fel gwasanaethau cymdeithasol, plant a chymunedau yn buddsoddi mewn ymatebion sy'n berthnasol i VAWDASV ond nid ydynt yn gysylltiedig â'r dull strategol o ymdrin â VAWDASV, gan beri'r perygl y bydd ymatebion aneffeithiol yn cael eu hariannu, dyblygu a dulliau ynysig. Mae'r modd y mae'r sector VAWDASV yn cael ei ariannu ar hyn o bryd wedi achosi nifer o faterion a phryderon cynyddol gan gynnwys:

- **Diogelwch i oroeswyr.** Nod pennaf pob gwasanaeth VAWDASV arbenigol yw bod yno i gynnig diogelwch a chefnogaeth i oroeswyr. Mae arolygon ymhlith aelodau'n dangos yn gyson bod nifer o wasanaethau'n ansicr ynghylch sut y byddant yn gweithredu yn y flwyddyn ganlynol oherwydd yr amgylchiadau cyllido. Mae goroeswyr yn haeddu gwybod bod y gefnogaeth iddynt yn gyson ac y bydd yno bob amser i'r rhai sydd ei hangen.
- **Datrys problemau a gallu i gynllunio ar gyfer y dyfodol** Mae cylchoedd cyllido byr yn caniatáu i wasanaethau ganolbwyntio ar yr argyfwng o'u blaenau yn unig, ac nid yw'n gadael fawr o le ar gyfer cynllunio strategol, atal na gwaith ehangach a fyddai o fudd i brofiadau goroeswyr ac yn galluogi rhyddid tymor hir rhag camdriniaeth.
- **Gweithgareddau cyfyngedig a biwrocratiaeth** Mae cyllid sy'n dod o amrywiaeth heb ei gydlynw o ffynonellau yn golygu bod yn rhaid i wasanaethau neilltuo llawer o amser ac adnoddau i ysgrifennu ceisiadau ac adrodd i fframweithiau canlyniadau lluosog. Mae'r potiau gwahanol hyn hefyd yn aml ar gyfer gweithgareddau penodol ac yn cyfyngu ar feddwl strategol ehangach.
- **Cadw staff.** Golyga cyllid ansicr cynnydd mewn contractau dros dro, sy'n ei gwneud yn anoddach i wasanaethu recriwtio a chadw eu gweithlu. Mae gwasanaethau arbenigol angen staff gyda sgiliau arbenigol, sy'n golygu bod llawer o amser ac adnoddau'n cael eu buddsoddi mewn hyfforddiant a chefnogaeth. Mae gorfod ailhyfforddi staff newydd oherwydd trafferth cadw'r gweithlu yn anghynladwy.

- **Tendro cystadleuol.** Mae prosesau tendro cyfredol yn gwneud i wasanaethau arbenigol gystadlu yn erbyn ei gilydd ac yn eu gwneud yn gystadleuwyr yn hytrach na chynghreiriaid. Mae aelodau bob amser yn adrodd eu bod eisiau rhannu gwybodaeth, sgiliau ac adnoddau, ac er bod hyn yn wir, mae'n rhaid i wasanaethau hefyd ystyried sut y byddant yn goroesi i barhau â'r gwaith hanfodol o gefnogi goroeswyr a staff pan ddaw hi'n amser i dendro am gontractau.
- **Loteri cod post.** Nid yw gwasanaethau'n cael eu hariannu'n gyson ar draws Awdurdodau Lleol ac mae'r diffyg barn gyffredinol hwn ynghylch sut mae'r sector arbenigol yn cael ei ariannu yn ei gwneud hi'n anodd nodi bylchau yn y ddarpariaeth ac i feddwl yn strategol am roi terfyn ar VAWDASV yn ei gyfanrwydd.

Mae VAWDASV yn cael effaith ar gyllidebau ar draws iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, tai, addysg, cyfiawnder troseddol, gwasanaethau cymunedol a'r economi gyfan. Mae adrannau'r llywodraeth, awdurdodau lleol, byrddau iechyd, heddluoedd a'r system cyfiawnder troseddol i gyd yn gwario cryn arian ar effeithiau VAWDASV.

Mae model cyllido cynaliadwy yn ymwneud â'r lefel gywir o fuddsoddiad, buddsoddi effeithiol a dyrannu cyllid i sicrhau ymateb cyfannol i VAWDASV.

Byddai model cyllido cynaliadwy yn:

1. Gwybod am amllder pob math o VAWDASV yng Nghymru ac yn ceisio buddsoddi mewn dulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth sydd nid yn unig yn lleihau nifer yr achosion ond sy'n ceisio dileu VAWDASV.
2. Yn gwrandao ar anghenion goroeswyr, ac yn cael eu harwain ganddynt, gan amcanu i fuddsoddi mewn ymatebion sy'n cyflawni rhyddid hir dymor rhag camdriniaeth.
3. Cael darlun clir o'r holl asiantaethau perthnasol, gan gynnwys y Llywodraeth, awdurdodau lleol a byrddau iechyd, y gwariant cyfredol ar VAWDASV ar draws atal, amddiffyn a chefnogi. Cydnabod dyletswyddau a chyfraniadau asiantaethau lle nad atal VAWDASV neu gefnogaeth yw eu prif ffocws ond yn hytrach rhan o'u gwaith ehangach.
4. Gweithio gyda chyrrff sydd heb eu datganoli i gael darlun o'u gwariant a sut y byddai'n alinio.
5. Deall yn glir y buddion y byddai buddsoddi mewn dull cyfannol (a amlinellir uchod) yn ei gael ar iechyd, addysg, cymunedau, tai a'r economi a thynnu buddsoddiad o bob portffolio i adlewyrchu hyn.
6. Cyfateb y buddsoddiad â'r angen a'r lefelau cyffredinrwydd, wrth adeiladu hyblygrwydd sy'n cydnabod bod pob math o VAWDASV yn cael ei dan-adrodd, gan gydnabod y bydd buddsoddiad mewn atal ac ymyrraeth gynnar yn cynyddu'r galw am gefnogaeth i ddechrau.
7. Paratoi cynllun sy'n tynnu ar fuddsoddiad cymesur o ar draws grantiau a phortffolios y llywodraeth. Byddai hyn yn sicrhau bod pob grant yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol a dosbarthiad tecach o gostau VAWDASV.
8. Creu dealltwriaeth gyffredin o ansawdd y ddarpariaeth a galluogi asesiad effeithiol o anghenion. Yn y pendraw bydd hyn yn arwain at fuddsoddi grantiau yn effeithiol.
9. Defnyddio canllawiau comisiynu VAWDASV Llywodraeth Cymru, *Canllawiau Statudol ar gyfer Comisiynu Gwasanaethau VAWDASV yng Nghymru*²³ i hyrwyddo comisiynu cydweithredol sy'n darparu gwasanaethau mwy cyson ac effeithiol i atal VAWDASV ac amddiffyn a chefnogi dioddefwyr VAWDASV ledled Cymru.

²³ <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/canllawiau-statudol-ar-gyfer-comisiynu-gwasanaethau-vawdasv-yng-nghymru.pdf>

10. Adeiladu comisiynu da o wasanaethau'r sector arbenigol sy'n seiliedig ar ddealltwriaeth gadarn o VAWDASV a phwysigrwydd gwasanaethau gan ac ar gyfer sy'n cael eu harwain gan anghenion, sy'n ymateb i ryw ac yn benodol.
11. Darparu monitro cadarn i sicrhau bod y canllawiau'n cael eu gweithredu'n effeithiol gan sicrhau bod y canllawiau hyn yn berthnasol i gomisiynu gwasanaethau VAWDASV arbenigol ac anarbenigol, pa un a ydynt wedi'u comisiynu o'r sector cyhoeddus, y trydydd sector neu'r sector preifat.

Dylai fframwaith cenedlaethol ar gyfer cyllid diogel a chynaliadwy ar gyfer gwasanaethau arbenigol gynnwys y 5 elfen ganlynol:

1. Goruchwyliaeth ac atebolrwydd cenedlaethol
2. Egwyddorion cenedlaethol ar gyfer gweithredu
3. Cyflwyno canllawiau comisiynu statudol sy'n gofyn am gyd-gomisiynu strategol o ansawdd uchel o wasanaethau arbenigol VAWDASV ac ymyriadau eraill
4. Digonolrwydd cyllid: Cyllido cenedlaethol, rhanbarthol a lleol
5. Hygyrchedd ac ansawdd gwasanaethau

Gwneud cyllid cynaliadwy ar gyfer gwasanaethau arbenigol yn realiti

Er mwyn darparu cyllid diogel a chynaliadwy ar gyfer gwasanaethau arbenigol VAWDASV, gan weithio o fewn y fframwaith uchod, mae angen y camau gweithredu canlynol:

Llywodraeth Cymru

	<i>Camau Gweithredu</i>
1.	Creu mecanwaith cenedlaethol i oruchwyllo darpariaeth ariannu ar lefel genedlaethol a lleol
2.	Defnyddio nifer yr achosion o VAWDASV mewn poblogaethau a thystiolaeth bellach i effaith gymdeithasol i lywio'r broses o gyfrifo'r adnoddau y byddai eu hangen i ymateb i'r angen hwnnw yn genedlaethol ac yn lleol
3.	Parhau i ddyrannu'r grant VAWDASV wedi'i glustnodi i awdurdodau lleol
4.	Sicrhau ymrwymiad ychwanegol ar draws y Llywodraeth i fuddsoddi mewn ymyriadau VAWDASV
5.	Gwneud gwaith i fapio'r ddarpariaeth gwasanaeth yn y rhanbarth ar gyfer pob math o VAWDASV
6.	Sicrhau bod gwasanaethau arbenigol VAWDASV yn cael adnoddau digonol i gwrdd â'r lefelau hysbys o'r galw cyfredol am gefnogaeth
7.	Modelu comisiynu effeithiol trwy sicrhau bod holl adrannau'r Llywodraeth yn gwybod faint y maent yn ei wario ar VAWDASV, ac yn cyhoeddi faint maent yn ei wario ar VAWDASV a pha wahaniaeth y mae'r arian hwnnw'n ei wneud

8.	Sicrhau cyfrifoldeb trawsadrannol i ddyrannu o leiaf cyfran o'u cyllideb i greu cyllideb wedi'i chyfuno i gomisiynu darpariaeth gwasanaethau arbenigol VAWDASV sy'n ofynnol yn genedlaethol, mewn cydweithrediad â chomisiynwyr
9	Modelu comisiynu effeithiol trwy sicrhau bod holl adrannau'r Llywodraeth ac Awdurdodau Cyfrifol hefyd yn ymgorffori cyflwyno VAWDASV mewn mecanweithiau comisiynu prif ffrwd
10.	Cadarnhau pwy sy'n gyfrifol ac yn atebol am gomisiynu'r ystod o wasanaethau i ddiwallu'r amrywiol anghenion, a sicrhau bod gan bob rhanbarth fecanweithiau ar waith i ddarparu a chydlynu comisiynu VAWDASV strategol ar y cyd
11.	Sicrhau bod systemau ar waith i sicrhau ansawdd a monitro strategaethau comisiynu rhanbarthol a dwyn comisiynwyr i gyfrif am weithredu'r canllawiau comisiynu statudol ledled Cymru
12.	Cynhyrchu fframwaith perfformiad y cytunwyd arno gyda gofyniad i adrodd ar gynnydd yn gyhoeddus

Comisiynwyr

	<i>Camau Gweithredu</i>
1.	Cydweithio â gwasanaethau arbenigol, goroeswyr a chyrrff statudol i ddatblygu cynllun comisiynu VAWDASV ar gyfer eu rhanbarth, wedi'i lywio gan y strategaeth ranbarthol sy'n cwmpasu pob math o VAWDASV
2.	Cyfuno cyllidebau er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd eisoes ar gael, defnyddio grantiau presennol
3.	Cytuno ar gontractau am o leiaf 3-5 mlynedd
4.	Sicrhau fod unrhyw wasanaethau arbenigol sydd eisoes wedi'u comisiynu yn gweithio tuag at safonau ansawdd a gydnabyddir ac a achredir yn genedlaethol neu'n gweithio tuag at hynny
5.	Sicrhau bod gwaith i fynd i'r afael â Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs) a "Thrais Difrifol" sy'n cael ei ddatblygu ar draws Cymru yn ymgorffori ymatebion i VAWDASV

Awdurdodau Cyfrifol

	<i>Camau Gweithredu</i>
1.	Sicrhau y glynir at y canllawiau comisiynu statudol a bod strategaeth gomisiynu ranbarthol yn cael ei chynhyrchu mewn ymgynghoriad â gwasanaethau arbenigol a goroeswyr.

Darparwyr Gwasanaeth Arbenigol VAWDASV

	<i>Camau Gweithredu</i>
1.	Cyfrannu at grwpiau comisiynu lleol neu ranbarthol, a cheisio dylanwadu ar strategaethau comisiynu rhanbarthol a'r dadansoddiad o anghenion

Casgliad

Ni allwn barhau i ariannu gwasanaethau yn yr un modd ag yr ydym ni wedi bod yn gwneud ers cyhyd. Mae rhoi terfyn ar drais yn erbyn menywod yn fusnes i bawb, mae angen dull traws-lywodraethol, traws-sector wedi'i ariannu'n gynaliadwy i roi newid ar waith mewn ffordd ystyrlon a rhoi diwedd ar bob math o drais yn erbyn menywod.

Yng Nghymru, mae gennym ymrwymiad cenedlaethol gan y Llywodraeth i gyflwyno model ar gyfer cyllid cynaliadwy i wasanaethau arbenigol. Fel sector, fel gweinidogion a swyddogion y llywodraeth, fel gwlad, rydym wedi siarad yn helaeth ynghylch dod â phob math o drais yn erbyn menywod i ben trwy weithredu'r Ddeddf. Rydym yn gwerthfawrogi gwaith parhaus partneriaid yng Nghymru sy'n cyfrannu at gyflawni model ar gyfer cyllid cynaliadwy, naill ai trwy'r Grŵp Tasg a Gorffen Cenedlaethol, ymgyrchu neu eu gwaith ehangach. Fodd bynnag, fel yr amlinellir yn y ddogfen hon, mae angen

arweinyddiaeth ac ymrwymiad llawn i'r camau gweithredu yr ydym wedi awgrymu i droi trafodaethau yn realiti. Yn enwedig o ran atal, trais rhywiol, plant a phobl ifanc, cefnogaeth i fenywod mudol, a chyllid cynaliadwy ar gyfer gwasanaethau arbenigol.

Atodiad A: Cyd-destun a therminoleg

Beth yw Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV)?

Pan gyfeiriwn at VAWDASV yn y ddogfen hon rydym yn cydnabod y diffiniadau sy'n cyd-fynd â Chyngor Ewrop, ar ffurf Confensiwn Cyngor Ewrop ar atal a brwydro yn erbyn trais yn erbyn menywod a thrais domestig, a'r Cenhedloedd Unedig, ar ffurf eu Datganiad ar Ddiddymu Trais yn erbyn Menywod. Mae'r rhain yn cael eu cydnabod yn Strategaeth Genedlaethol VAWDASV 2016-2021 Llywodraeth Cymru.²⁴

Diffinnir **trais yn erbyn menywod** fel "cam yn erbyn hawliau dynol ac yn fath o wahaniaethu yn erbyn menywod, a bydd yn golygu pob gweithred o drais ar sail rhyw sy'n arwain at, neu'n debygol o arwain at, niwed corfforol, rhywiol, seicolegol neu economaidd neu ddioddefaint i fenywod, gan gynnwys bygythiadau o weithredoedd o'r fath, gorfodaeth neu amddifadu rhyddid yn anghyfiawnadwy, pa un a yw'n digwydd mewn bywyd cyhoeddus neu mewn bywyd preifat." Mae hyn yn cynnwys treisio, trais domestig, priodas dan orfod a'r hyn a elwir yn droseddau ar sail 'anrhydedd', anffurfio organau cenhedlu benywod (FGM), stelcio, masnachu pobl a cham-fanteisio'n rhywiol.

Diffinnir **trais domestig** gan Gonfensiwn Istanbwl fel "pob gweithred o drais corfforol, rhywiol, seicolegol neu economaidd sy'n digwydd o fewn y teulu neu'r uned ddomestig neu rhwng priod neu bartner blaenorol a phresennol, pa un a yw'r tramgwyddwr yn rhannu neu wedi rhannu'r un breswylfa â'r dioddefwr ai peidio".

Mae **trais rhywiol** yn cynnwys unrhyw ymddygiad yr ystyrir ei fod o natur rywiol nas dymunir ac sy'n digwydd heb gydsyniad neu ddealltwriaeth. Mae hyn yn cynnwys treisio ac ymosodiadau rhywiol, trais a cham-drin rhywiol, aflonyddu rhywiol, cam-drin plant yn rhywiol, a cham-fanteisio rhywiol, gan gynnwys trais sy'n gysylltiedig â masnachu pobl a'r diwydiant rhyw. Mae'r diwydiant rhyw yn cynnwys puteindra, pornograffi, a gweithgareddau masnachol eraill sy'n seiliedig ar ryw fel dawnsio glin, sydd yn aml yn gysylltiedig â'r 'economi gyda'r nos', ond nid bob amser. Cydnabyddir yn rhyngwladol bod masnachu pobl i mewn i ac o fewn y DU yn gysylltiedig â phuteindra; ystyrir hwyluso symudiad pobl ar gyfer puteindra o fewn ac ar draws ffiniau yn masnachu pobl.

Beth yw gwasanaethau arbenigol VAWDASV?

Y diffiniad a dderbynnir²⁵ o wasanaethau arbenigol VAWDASV yng Nghymru yw:

Gwasanaethau sy'n cael eu darparu yn annibynnol i'r wladwriaeth (h.y. y trydydd sector) a'u busnes craidd yn cynnwys cefnogi goroeswyr a/neu gyflawnwyr a/neu blant a phobl ifanc yr effeithiwyd arnynt gan unrhyw fath o VAWDASV (h.y. treisio ac ymosodiadau rhywiol gan gynnwys cam-drin plant yn rhywiol, cam-drin plant yn rhywiol ond nid yn ddiweddar, cam-drin domestig, aflonyddu rhywiol, priodi dan orfod, FGM, ecsbloetio rhywiol gan gynnwys drwy'r diwydiant rhyw, masnacha mewn pobl a chaethwasiaeth fodern, a thrais 'anrhydedd');

Mae'r ddarpariaeth ar sail angen a thrwy ymateb i rywedd, gan gydnabod continwmm y trais yn erbyn menywod a sicrhau bod ymyriadau a gwaith atal yn cysylltu VAWDASV i batrymau ehangach o

²⁴ [Trais yn erbyn menywod a cham-drin domestig | GOV.WALES](#)

²⁵ <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/canllawiau-statudol-ar-gyfer-comisiynu-gwasanaethau-vawdasv-yng-nghymru.pdf>

anhydraddoldeb rhyw ac anhydraddoldebau croestoriadol eraill, gan gynnwys tarddiad ethnig, dosbarth, hunaniaeth o ran rhywedd, oed, gallu, rhywioldeb, crefydd a chred;

Gyda'u dealltwriaeth a'u gwasanaethau wedi'i lywio gan y dadansoddiad bod VAWDASV yn rhywbeth rhyweddol ac wedi'i achosi gan anhydraddoldeb rhwng menywod a dynion ac yn deillio ohono, sy'n croesdorri â ffactorau fel tarddiad ethnig, oed, dosbarth, rhywioldeb ac anabledd i effeithio ar brofiadau o gam-drin a llwybrau adfer. Mae gwasanaethau VAWDASV arbenigol yn cydnabod ei bod yn gwbl bosibl atal y mathau hyn o drais, eu bod yn digwydd yn anghymesur i fenywod a merched oherwydd eu bod yn fenywod a merched, fel math o reolaeth gymdeithasol sy'n cynnal ac ailadrodd pŵer anghyfartal ac yn rhwystr i gyflawni cydraddoldeb a hawliau dynol i fenywod a merched;

Darparu gwasanaethau arbenigol sy'n wahanol i wasanaethau 'cymorth cyffredinol' oherwydd bod gan y sefydliadau/gwasanaethau fodel holistaidd o ddarparu gwasanaethau sy'n ymateb i rywedd a diwylliant, yn unol â fframweithiau safonau ansawdd y DU ar gyfer gwasanaethau o'r fath, ac yn cael eu rhedeg gan ac ar gyfer y cymunedau a wasanaethir ganddynt. Drwy wneud hyn maent yn cynnig profiad grymuso unigryw, yn enwedig i fenywod a phlant a chymunedau duon a lleiafrifoedd ethnig, oherwydd mae'r grŵp cleientiaid wedi'i adlewyrchu yn strwythurau staffio, rheoli a llywodraethu'r sefydliadau hyn.

Atodiad B

Camau gweithredu cyllid cynaliadwy yn fwy manwl26

- **Llywodraeth Cymru** i greu ***mecanwaith cenedlaethol i oruchwylio darpariaeth ariannu ar*** lefel genedlaethol a lleol - dylai'r mecanwaith fod yn gyfrifol am ddeall costau gofynion deddfwriaethol a chomisiynu, uno bylchau rhwng cyllid cenedlaethol a lleol, a dwyn comisiynwyr i gyfrif am ddatblygu a darparu strategaethau comisiynu effeithiol ac integredig fel ffordd o sicrhau cynaliadwyedd gwasanaethau.
- **Llywodraeth Cymru** i ddefnyddio nifer yr achosion o VAWDASV mewn poblogaethau a'r dystiolaeth i gostau cymdeithasol, ariannol ac amgylcheddol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol i allosod i ardaloedd lleol, i lywio'r broses o ***gyfrifo'r adnoddau y byddai eu hangen i ymateb i'r angen hwnnw yn genedlaethol ac yn lleol***. Dylid ystyried i ba raddau y mae fformiwlâu cyllido presennol yn adnabod yr angen hwn ac yn darparu cyllid i'w ddiwallu.
- **Llywodraeth Cymru** i barhau ***i ddyrannu grant VAWDASV wedi'i glustnodi i awdurdodau lleol i alluogi darparu gwasanaethau arbenigol a chyflawni'r rhwymedigaethau sy'n rhan o'r Ddeddf***. Mae angen gwneud gwaith pellach gydag awdurdodau lleol i ddeall costau gweithredu'r Ddeddf a'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni ei ofynion.
- **Llywodraeth Cymru** i sicrhau ***ymrwymiad traws-Llywodraethol ychwanegol i fuddsoddi mewn ymyriadau VAWDASV*** ac i gefnogi hyn, i gyflwyno cyllidebu sy'n ymateb i rywedd a ddylai adnabod a rhyddhau cyllid; byddai hyn yn galluogi cronni adnoddau yn genedlaethol i'w dyrannu i ardaloedd lleol ar gyfer comisiynu VAWDASV.
- **Llywodraeth Cymru** i wneud ***gwaith mapio cenedlaethol o'r ddarpariaeth gwasanaeth yn y rhanbarthau ar gyfer pob math o VAWDASV*** (cam-drin domestig, trais rhywiol, FGM, masnachu pobl, a'r hyn a elwir yn 'trais ar sail anrhydedd', gan gefnogi ymadael â phuteindra, aflonyddu rhywiol, cam-drin plant yn rhywiol, stelcio ac aflonyddu) i sicrhau bod gan wasanaethau allu digonol i ddiwallu angen, ac nad oes yna ganlyniadau anfwriadol na cholli darpariaeth yn sylweddol ar ôl comisiynu. Dylid gwneud hyn mewn cydweithrediad agos â sefydliadau ymbarél arbenigol a gwasanaethau arbenigol sydd eisoes yn cadw data hanfodol ar gostau craidd sy'n gysylltiedig â rhedeg gwasanaethau sy'n cwrdd â safonau ansawdd achrededig a gofynion cydraddoldeb, lefel yr angen a bylchau mewn cyllid.
- **Llywodraeth Cymru** i sicrhau bod gan ***wasanaethau arbenigol VAWDASV adnoddau digonol i fodloni lefelau hysbys o'r galw cyfredol am gefnogaeth*** a gyflwynir ym mhob ardal awdurdod lleol, fel y nodwyd mewn asesiadau anghenion a chan wasanaethau arbenigol a chomisiynwyr yn gweithio gyda'i gilydd. Dylid rhoi blaenoriaeth i sicrhau bod y rhai mwyaf ymylol a'r rhai a gwahaniaethir yn eu herbyn mwyaf (sydd ag "anghenion cymhleth") yn gallu cyrchu gwasanaethau a diwallu eu hanghenion cymorth. Yna gellir dod o hyd i gyllid ychwanegol (e.e. trwy grantiau, ffynonellau elusennol, rhoddion, gwerthu nwyddau a gwasanaethau) i fynd i'r afael ag anghenion nas diwallwyd, anghenion lleol ychwanegol a phenodol, a gwaith atal cymunedol. Dylid ystyried sefydlu ***cronfa argyfwng genedlaethol i liniaru'r argyfwng o ran diffyg cyllid ar gyfer gwasanaethau rheng flaen*** nes bod model mwy cadarn yn cael ei ddatblygu.

26 Detholiad o *Achieving Secure and Sustainable Funding for VAWDASV Specialist Services* Papur Trafod gan Eleri Butler, Karen Jones a Natalie Southgate

- **Llywodraeth Cymru** i fodelu comisiynu effeithiol trwy sicrhau ***bod holl adrannau'r Llywodraeth yn gwybod faint y maent yn ei wario ar VAWDASV***, ac yn ***cyhoeddi faint maent yn ei wario ar VAWDASV a pha wahaniaeth y mae'r arian hwnnw'n ei wneud***, gan gwmpasu'r broses o adnabod ac ymateb i VAWDASV gan yr Adran honno a faint y maent yn ei wario ar gomisiynu darpariaeth allanol sy'n mynd i'r afael â VAWDASV, trwy grantiau neu contractau.
- **Llywodraeth Cymru** i sicrhau cyfrifoldeb trawsadrannol i ddyrannu o leiaf cyfran o'u cyllideb i greu ***cyllideb wedi'i chyfuno i gomisiynu darpariaeth gwasanaethau arbenigol VAWDASV sy'n ofynnol yn genedlaethol***, mewn cydweithrediad â chomisiynwyr, h.y.:
 - Sefydliad ymbarél VAWDASV cenedlaethol
 - Llinell gymorth genedlaethol ar gyfer goroeswyr VAWDASV
 - Cronfa amddifadedd genedlaethol i alluogi goroeswyr nad ydynt yn gallu gofyn am arian cyhoeddus i gael mynediad at ddiogelwch a chefnogaeth.

A hefyd rhoi adnoddau i a chadw goruchwyliaeth o gomisiynu rhanbarthol a lleol i sicrhau bod Cymru yn cynnal:

 - Rhwydwaith cenedlaethol o lochesau (sy'n cael eu hariannu'n genedlaethol ac yn lleol i ddarparu cefnogaeth ar draws awdurdodau.
 - Gwasanaethau 'gan ac ar gyfer' menywod duon a menywod lleiafrifoedd ethnig
 - Gwasanaethau sy'n darparu cefnogaeth arbenigol ar gyfer trais rhywiol sy'n annibynnol o'r wladwriaeth
 - Gwasanaethau sy'n darparu cefnogaeth wedi'i thargedu ar gyfer plant a phobl ifanc
 - Gwasanaethau ymyrraeth effeithiol i gyflawnwyr
- **Llywodraeth Cymru** i fodelu comisiynu effeithiol trwy sicrhau bod holl adrannau'r Llywodraeth ac awdurdodau cyfrifol hefyd yn ymgorffori ***cyflwyno VAWDASV mewn mecanweithiau comisiynu prif ffrwd*** (wedi'u comisiynu o wasanaethau arbenigol ac o fewn darparu gwasanaethau cyhoeddus) er mwyn sicrhau'r buddsoddiad mwyaf posibl i ddarpariaeth VAWDASV yn lleol (e.e. y Grant Cymorth Tai (GCT), y Grant Plant a Chymunedau (GPCh) a grantiau eraill i ddiwallu anghenion cymunedau yng Nghymru, fel addysg ac adfywio ardaloedd o amddifadedd). Byddai hyn yn cynnwys sicrhau bod canlyniadau VAWDASV, sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau 'llesiant cenedlaethau'r dyfodol' a grantiau prif ffrwd (GCT, GPCh), yn cael eu hymgorffori mewn prosesau comisiynu cenedlaethol, rhanbarthol sydd eisoes yn bodoli.
- **Llywodraeth Cymru** i gadarnhau pwy sy'n gyfrifol ac yn atebol am gomisiynu'r ystod o wasanaethau i ddiwallu'r amrywiol anghenion, a sicrhau bod gan bob rhanbarth ***fecanweithiau ar waith i ddarparu a chydlynu cydweithredu comisiynu VAWDASV strategol*** ar draws Byrddau Rhaglenni Ardal, Grwpiau Comisiynu a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.
- **Llywodraeth Cymru** i sicrhau bod systemau ar waith i ***sicrhau ansawdd a monitro strategaethau comisiynu rhanbarthol a dwyn comisiynwyr i gyfrif*** am weithredu'r canllawiau comisiynu statudol ledled Cymru, trwy e.e. Swyddfa Archwilio Cymru, adroddiadau cyhoeddus ar wariant VAWDASV a chyflawni gofynion statudol, a fforwm rhyngwladol i ymarferwyr/comisiynwyr weithio trwy'r gofynion gweithredu.
- **Llywodraeth Cymru** i gynhyrchu ***fframwaith perfformiad y cytunwyd arno a gofyniad i adrodd ar gynnydd yn gyhoeddus*** gan awdurdodau cyfrifol i sicrhau bod y ffordd y cyflawnwyd dyletswyddau deddfwriaethol a chanllawiau statudol yn cael eu hadrodd mewn adroddiadau blynyddol y gellir eu harchwilio'n allanol o bryd i'w gilydd (fel gyda rhwymedigaethau cyfredol i gyhoeddi bylchau cyflog rhwng y rhywiau, er enghraifft).

- **Comisiynwyr** i gydweithio i ddatblygu cynllun comisiynu VAWDASV ar gyfer eu rhanbarth, wedi'i lywio gan y strategaeth ranbarthol, comisiynu yn unol â'r canllawiau comisiynu statudol ac yn unol â'r egwyddorion uchod.
- **Comisiynwyr** i gyfuno cyllidebau i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau presennol, gan ddefnyddio'r grant Cymorth Tai, y grant Plant a Chymunedau, cronfeydd yr Heddlu a throseddau, adnoddau i ddarparu gwasanaethau plant, gwasanaethau addysg, gwasanaethau ieuencid, gwasanaethau iechyd
- **Comisiynwyr** i gytuno ar gytundebau am o leiaf 3-5 mlynedd a mabwysiadau egwyddorion hyblyg ar gyfer ariannu parhaus a'r gallu i estyn tymor y contract.
- **Comisiynwyr** i sicrhau bod unrhyw wasanaethau arbenigol a gomisiynir eisoes yn dal neu'n gweithio tuag at safonau ansawdd achrededig sydd ar gael yn genedlaethol (o'r gyfres o safonau sydd ar gael ar gyfer trais rhywiol, cam-drin domestig, BME a gwasanaethau arbenigol i gyflawnwyr yng Nghymru) a bod lleisiau goroeswyr yn llywio dyluniad gwasanaeth a bod ymgysylltiad parhaus defnyddwyr gwasanaeth yn cael ei gynnal trwy gydol oes unrhyw gontract.
- **Comisiynwyr** i sicrhau bod gwaith i fynd i'r afael ag ACEs a "Thrais Difrifol" sy'n cael eu datblygu ledled Cymru yn ymgorffori ymatebion i VAWDASV, i gydnabod ei flaenoriaeth drawsbynciol a'r angen i gynyddu buddsoddiad i atal VAWDASV yng Nghymru.
- **Awdurdodau cyfrifol** i sicrhau bod y canllawiau comisiynu statudol yn cael ei gadw a bod strategaeth gomisiynu ranbarthol yn cael ei chynhyrchu, sy'n cynnwys ymgynghori helaeth â'r holl bartneriaid, yn seiliedig ar yr anghenion a nodwyd trwy asesiad anghenion cynhwysfawr. Dylai'r strategaeth gomisiynu ranbarthol gael ei hadolygu bob 3 blynedd, gan sicrhau bod cyllid yn cael ei flaenoriaethu i fynd i'r afael â'r anghenion a nodwyd yn y strategaeth gomisiynu, a chynorthwyo i ddod o hyd i a blaenoriaethu cyllid ar gyfer gwasanaethau VAWDASV.
- **Darparwyr Gwasanaeth Arbenigol VAWDASV** i gymryd rhan mewn grwpiau comisiynu lleol neu ranbarthol, a cheisio dylanwadu ar strategaethau comisiynu rhanbarthol a'r dadansoddiad o anghenion, yn benodol i lywio'r hyn sy'n gweithio ar lawr gwlad ac unrhyw anghenion sy'n dod i'r amlwg.

Cymorth i Ferched Cymru

Tŷ Pendragon, Caxton Place,
Pentwyn, Caerdydd, CF23 8XE

02920 541 551

info@welshwomensaid.org.uk

gwybodaeth@llynellgymorthbywhebofon.cymru

www.welshwomensaid.org.uk

Registered Charity Number: 1140962

Dilynwch ni:

[@welshwomensaid](https://www.instagram.com/welshwomensaid)



Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid

Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First